



Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Sadwrn 22 Chwefror 2014 yn Nhrefaldwyn

2014.01 *Addoli Agoriadol a Chroeso*

Darllenwyd *Quaker faith & practice* 23.12 yn ein haddoli agoriadol. Mae'n bleser gennym gael croesawu 31 o Gyfeillion yma heddiw fel a restrir ar y daflen bresenoldeb.

Mae'r Cyfeillion canlynol wedi'u penodi gan eu Cyfarfodydd Ardal i fod yn bresennol:

- Canolbarth Cymru: Tom Brown
- Gogledd Cymru: Angela Arnold, Frank Brown, Catherine James, Rhian Parry (Angela Burton – ataliwyd)
- De Cymru: Carolyn Sansom (ataliwyd) – Lynn Moseley i adrodd
- Gororau'r De: Peter Hussey

Liz Butler a Margaret Clark yw'n Henaduriaid heddiw.

2014.02 *Calon a The Friend*

Mae Angela Arnold wedi cytuno i ysgrifennu adroddiad am y cyfarfod hwn ar gyfer *The Friend* ac i *Calon*.

2014.03 *Adroddiad: Cyngor Cynrychioladol Quaker Life*

Mae Liz Butler wedi adrodd am Gyngor Cynrychioladol *Quaker Life* a gynhaliwyd 18–20 Hydref 2013. Y teitl ar gyfer y penwythnos oedd **Aelodaeth a Pherthyn**. Bu Cyfeillion yn ystyried gwahanol agweddau ar Aelodaeth a'i hystyr; hefyd y gwahanol brosesau o wneud cais i ymaelodi a chael eich derbyn yn Aelod.

Rhoddodd Simon Best sgwrs am hanes aelodaeth y Cyfeillion (gweler rhifyn mis Ionawr *Quaker Voices* 2014). Nododd, yn nyddiau cynnar Crynwriaeth, y byddai unrhyw un a fynychai gyfarfodydd yn cael ei ystyried yn aelod ac felly roedd yn agored i gael ei erlyn.

Bu grŵp yn treulio'r amser rhydd ar y dydd Sadwrn yn gweu rhan o sgarff binc enfawr. Ar 9 Awst 2014, y bwriad yw ei hestyn rhwng y safleoedd arfau atomig yn Aldermaston a Burghfield, Berkshire, lle mae arfau niwclear yn cael eu storio. Rydym yn diolch i Liz am yr adroddiad hwn.

2014.04 *Cyneuwyr a Dioddefiadau/Cyfarfodydd Ardal*

Bydd y Cyneuwyr (*Kindlers*) yn cyflwyno dau weithdy yn ystod chwe mis cyntaf eleni – bydd y cyntaf yn Nhŷ Cwrdd y Cyfeillion yn Llandrindod (ddydd Sadwrn 5 Ebrill) i Gyfeillion o Dde Cymru a Gororau'r De. Y testun ar gyfer y digwyddiad hwn yw **Labordai'r Ysbryd: Gartre': Yn y Cwrdd**. Brian Holley, Emma Roberts ac Alec Davison fydd y siaradwyr ar gyfer y cyfarfod hwn.

Cynhelir yr ail ddigwyddiad yn Neuadd y Pentre Ganllwyd ger Dolgellau (ddydd Sadwrn 21 Mehefin) ar gyfer Cyfeillion o Gyfarfodydd Ardal Gogledd a Chanolbarth Cymru. Y testun y tro hwn fydd **Ffrwythau'r Ysbryd**. Y siaradwyr fydd David Bowgett ac un arall. Anfonir taflenni cyn bo hir ar gyfer y digwyddiad ym mis Ebrill. Yn ail hanner 2014, bydd dau **Gynulliad Rhanbarthol Dioddefiadau** fel rhan o'r symudiad i feithrin cysylltiadau rhwng y Cyfarfodydd Ardal a Dioddefiadau ledled Cyfarfod Blynyddol Prydain. Maent yn cael eu hanelu at unrhyw un sydd am ddeall sut mae Crynwriaeth yn gweithio. Bydd un digwyddiad yng Ngogledd/Canolbarth Cymru ar 18 Hydref (y lleoliad eto i'w benderfynu) a bydd y digwyddiad yn Ne Cymru, yn gwasanaethu Cyfarfodydd Ardal Gororau'r De a De Cymru ar 22 Tachwedd yn Nhŷ Cwrdd y Cyfeillion yng Nghaerdydd.

2014.05 *Cyfarfod Dioddefiadau*

Bu Cyfarfod Dioddefiadau ar 7 Rhagfyr 2013 a 1 Chwefror 2014 yn ystyried nifer o faterion o bwys, gan gynnwys dyfodol Plas Swarthmoor; addysg – pryder newydd gan CA Gorllewin Cumbria a CA Dyfnaint;

Cynulliadau Rhanbarthol y Cyfarfod Dioddefiadau a Thoriadau i Fudd-daliadau Lles. Derbyniwyd cofnod gan CA Sheffield a Balby ynglŷn â chyfathrebu mewn cyfarfodydd. Daethpwyd â'r Grŵp Eiriolaeth i ben a bydd adroddiad yn cael ei ddsbarthu i Gyfarfodydd Ardal. Bu'r Swyddog Cyswllt Seneddol newydd yn egluro natur ei gwaith ac mae'n annog Cyfeillion i gysylltu â hi ynglŷn â materion gwleidyddol.

Hefyd, trafodwyd y **posibilrwydd o ddiwygio'r Llyfr Disgyblaeth** – mae'r cyfnod ymgynghori bellach wedi dod i ben. Cychwynnwyd y drafodaeth hon gan gofnodion o Gyfarfodydd Ardal Gogledd Cymru, Norfolk a Waveney. Lansiodd yr ymgynghoriad ym mis Mehefin 2013 a'i gau 30 Tachwedd. Bu nifer mawr o gyfarfodydd yn ymateb ac mae'n glir bod y mater wedi cael ei gymryd o ddifri. Mae pedair ffordd bosibl ymlaen wedi'u hawgrymu.

Mae'r Cyfarfod Dioddefiadau'n teimlo bod yr amser yn iawn i ddiwygio'r Llyfr;

Mae'r Cyfarfod Dioddefiadau'n teimlo bod angen cyfnod paratoi;

Mae'r Cyfarfod Dioddefiadau'n gohirio'r penderfyniad;

Mae'r Cyfarfod Dioddefiadau'n teimlo nad oes angen i'w ddiwygio ar hyn o bryd.

Rhaid i Gyfeillion sy'n mynychu Cynulliad y Cyfarfod Blynyddol ddod yn barod i drafod hyn gan mai penderfyniad y Cyfarfod Blynyddol yw dechrau diwygio ai peidio. Mae angen i Gyfarfodydd Ardal drafod hyn mewn rhyw ffordd cyn mis Awst.

Bu llawer o'r drafodaeth yn troi o gwmpas ail hanner *Quaker faith & practice* (Qf&p) – yr agwedd gymdeithasol a thystiolaethol. Teimlid bod angen i ni, fel cymdeithas, ymglyfarwyddo â datblygiadau diweddaraf ein diwinyddiaeth wrth i ni ei byw a'i harfer.

Os bydd y Cyfarfod Blynyddol yn cytuno i ddiwygio Qf&p, rydym yn gobeithio y bydd y broses o ddiwygio'n cydnabod gwahanol leisiau Crynwriaeth ledled Prydain. Rhaid cynnwys Cymraeg mewn amlddiwylliannaeth. Yn ein cyfarfod ym mis Mehefin, y prif destun bellach fydd y diwygio posibl, a all arwain at anfon cofnod i'r Cyfarfod Dioddefiadau. Rydym yn diolch i David Butler am ei adroddiad.

2014.06 Israel/Palesteina a'r Crynwyr yng Nghymru

Ymhellach i Gofnodion 2013.10, 2013.30 a 2013.44, rydym wedi clywed gan ychydig o'r cyrddau lleol yng Nghymru am eu hymwneud â phobl sy'n cydweithio â grwpiau ac unigolion yn Israel/Palesteina.

- O ganlyniad i sgwrs a drefnwyd gan Gwrdd Llanidloes a'i thraddodi gan Jane Harries, sefydlwyd grŵp sydd wedi tyfu'n gysylltiad llwyddiannus iawn rhwng Cwrdd Llanidloes a phentref o'r enw As sawiya.
- Cynhaliwyd cyfarfod yn Nhrefaldwyn gyda Mark Michaels ar fater Israel-Palesteina, ynghyd â Jeff Beatty (Clerc) a Jan Arriens (Clerc Cynorthwyol) Cyfarfod Ardal Gororau'r De, ar 15 Awst 2013. Roedd y Cyfarfod Ardal am fynd ar ôl unrhyw gysylltiadau y gellid eu gwneud â'r Gymuned Iddewig yn yr ardal.
- Darparwyd mwy o wybodaeth am efeillio gan John Butler o Gwrdd Porthmadog :
Gwefannau: <http://www.twinningwithpalestine.net/>
<http://www.camdenabudis.net/twining.html>

Yn ein cyfarfod diwethaf, siaradodd Helen Porter am y ffilm **Two-Sided Story** a'r cylchlythyr o **Fforwm Rheini Mewn Galar**.

Bu Donald Saunders yn adrodd ar waith Grŵp Heddwch Sir Conwy a bydd yn anfon adroddiad llawn y gellir ei gylchredeg.

Mae Sue Shreeve wedi sôn wrthym am waith ymgyrch Cefnogi Palesteina a bydd yn anfon y manylion.

Bu Lynn Moseley, gyda grŵp o bump arall, yn ymweld â'r Synagog Diwygiedig yng Nghaerdydd. Hefyd, rhoddodd fanylion llyfr gan **Shlomo Sand – The Invention of the Jewish People** i ni. Bydd manylion yr holl gyfraniadau hyn at ein trafodaeth yn yr e-bost a ddsberthir i bawb a gofrestrodd i'w dderbyn.

2014.07 Byw Ffordd y Crynwyr, Woodbrooke ar y Ffordd – Gill Pennington, Abertawe, 16:11:13

'Bod gyda'n gilydd mewn cymuned' oedd teitl y gweithdy olaf hwn yn y cydweithrediad rhwng Woodbrooke ar y Ffordd a Chyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru. Tynnodd Gill ar fodel Myers-Brigg o fathau o bersonoliaethau neu bersonoliaethau a ffefrir, gan gyflwyno pedwar prif ddimensiwn i'r cyfranogwyr – allblygedd yn erbyn mewnblygrwydd, synhwyro yn erbyn sythwelediad, meddwl yn erbyn teimlo a barnu yn erbyn canfod.

Prif wers y diwrnod oedd yr angen i dderbyn ein gilydd: nid yw ymagweddau gwahanol yn gywir nac yn anghywir ond maent yn ategu ei gilydd. Roedd pawb wedi mwynhau'r diwrnod gan ddiolch yn gynnes i Gill. Rydym yn diolch i David Harries am yr adroddiad.

2014.08 Cynhadledd QCEA ym Mrwsel ar Gyfiawnder Economaidd yn Ewrop

Mae Peter Hussey wedi adrodd wrthym ar gyfarfod QCEA ym Mrwsel 15-17 Tachwedd 2013.

Bu cynrychiolwyr o'n cyfarfodydd ardal, Angela Burton, Stevie Kraye a Peter Hussey yn mynychu'r gynhadledd hon ac mae eu hadroddiadau i'w Cyfarfodydd Ardal ar gael.

Mae Peter wedi disgrifio economeg fodern gwledydd datblygedig, gan gynnwys cytundebau masnach. Mae honglaid diysgog y gyfundrefn fyd-eang yn ddychrynlyd, ond daeth ein cyfeillion oddi yno'n benderfynol o newid pethau.

Fe'n hanogir i drefnu siaradwr o QCEA i'n hannerch yn un o Gyfarfodydd y Cyfeillion yng Nghymru yn y dyfodol ac i ymbaratoi drwy friffio QCEA ar eu gwefan mewn pryd i etholiadau Ewrop ym mis Mai.

2014.09 Lansiad *Tua'r Tarddiad a Towards the Source*

Mae Rhian Parry, Catherine James a Deborah Rowlands wedi cyflwyno'r ddwy gyfrol sy'n cael eu lansio— *Tua'r Tarddiad a Towards the Source*. Mae creu'r DVD a'r ddwy gyfrol wedi bod yn ymarferiad ysbrydol; braint o'r mwyaf oedd darllen yr holl ddarnau a gyflwynwyd. Ceir cymaint o amrywiaeth yn y llyfr nes bydd pawb yn cael hyd i rywbeth ynddo. Mae un copi o bob cyfrol ar ei ffordd i bob cwrdd lleol yng Nghymru.

Mae'n hanfodol ein bod yn gallu addoli mewn iaith sy'n naturiol i ni. Felly, mae'r llyfrau'n rhannu lleisiau Cyfeillion cyfoes yn eu hiaith eu hunain. Rydym hefyd yn clywed lleisiau Cyfeillion o ddyddiau cynnar Crynwriaeth. Credwn y byddent hwythau'n dathlu gyda ni heddiw.

Hoffem ddwyn y gwaith hwn i sylw Cyfeillion yng Nghynulliad y Cyfarfod Blynyddol ym mis Awst ac rydym yn awdurdodi ein clerc, ynghyd â'r golygyddion, i edrych ar ffyrdd o wneud hyn.

Mae Deborah wedi adrodd ar yr agweddau ariannol; mae Ymddiriedolaeth Elusennol Joseph Rowntree wedi darparu digon o arian i alluogi anfon y llyfrau drwy'r post i bob ysgol uwchradd a phob llyfrgell sirol yng Nghymru.

Diolchwn i bawb sydd wedi cyfrannu i gyhoeddi'r llyfrau hyn, yn enwedig y golygyddion.

2014.10 Jamie Wrench – Cyfiawnder Adferol

Buom yn ystyried pam mae carchardai gennym, beth yw eu pwrpas ac at beth, yn ddelfrydol, y gallent gael eu defnyddio. Y rhagdybiaeth wleidyddol yw bod cosb lem yn gweithio. Teimlem y dylai carchar ddarparu addysg, hyfforddiant a thriniaeth, gan anelu at newid unigolion. Nod da fyddai ailsefydlu ac integreiddio i'r gymdeithas.

Isod, yn gryno, ceir ein syniadau am ddiben carchardai a beth ddylai eu diben fod.

Beth yw pwrpas carchar?		Beth ddylai pwrpas carchar fod
<ul style="list-style-type: none">• Diogelu'r cyhoedd• Cosb - Ad-daledigaeth / dial• Ffordd hawdd o waredu• Rheoli cymdeithasol• Ataliaeth• Rheoli cost-effeithiol• Ateb gofynion y gyfraith• Ailsefydlu• Gosod siampl	<ul style="list-style-type: none">•Menter breifat – cyflogaeth•Talu'n ôl	<ul style="list-style-type: none">• Addysg)• Diwygio) newid• Cadarnhaol)• Sioc sydyn• Diogelu'r cyhoedd• Hyfforddiant ar gyfer bywyd• Triniaeth• Cydnabod dioddefwyr

Rydym wir wedi gwerthfawrogi'r drafodaeth hon ac rydym yn diolch i Jamie.

2014.11 Ymddiriedolwyr a Chyllid:

Mae ein hymddiriedolwyr wedi cymeradwyo adroddiad blynyddol 2013 ac mae'r trysorydd wedi cyflwyno'r cyfrifon i'r ymddiriedolwyr.

Yn ystod 2013, bu ein gwariant o ddydd i ddydd yn uwch na'n hincwm, gan arwain at ddiffyg o £1,568.32. Fel hyn, lleihawyd gwarged ein cronfa gyffredinol i £8,143.78, sy'n dal i gydymffurfio â rheoliadau ariannol oherwydd ei fod yn fwy na'r grant gan Gyfarfod Blynyddol Prydain. Mae hyn yn rhoi ystyriaeth i'n penderfyniad i drosglwyddo cronfa etifeddiaeth Roberts o £1,000 i Gronfa Gyfyngedig Lleisiau Digidol, £1,000 arall o'r Gronfa Lèn a £500 o'r Gronfa Gyffredinol.

Nodwn fod yr ymddiriedolwyr wedi cytuno i ddirwyn cronfa etifeddiaeth John Roberts i ben, ynghyd â'r gronfa fwrsari ddynodedig, cronfa fwrsari fach gyfyngedig a'r gronfa lèn gyfyngedig.

Diben y cofnod hwn yw nodi'r penderfyniad gan fod y mater o fewn cylch gwaith yr Ymddiriedolwyr.

Cyfanswm y gweddill ariannol ar ddiwedd y flwyddyn oedd £23,639.79, y rhan fwyaf ohono'n arian heb ei wario a gronnwyd yn y prosiect llyfrau a ariennir gan JRCT (10,073.70) a chronfa gyfyngedig Lleisiau Digidol (£5,020.00) Mae'r fantolen yn dangos gweddill arian parod yn y banc ar ddiwedd y flwyddyn o £21,370.79, sic e heb ei thalu am £531.00 a swm dyledwr o £2,800.

Cyllideb 2014

Mae galwadau presennol ar y gronfa gyffredinol yn golygu bod angen cyllideb adennill costau o dan reolaeth dynn. Byddwn yn gofyn i gyfarfodydd ardal gynyddu eu cyfraniadau 5% eleni gan nad yw'r rhain wedi newid er 2009. Mae grant Cyfarfod Blynyddol Prydain wedi cynyddu eleni i £6,600. Rydym yn gobeithio cadw ein gwariant at £8851.00.

Er mwyn cyflawni hyn rydym yn argymhell y newid canlynol yn ein trefniadau ariannu presennol:

- Dylem gyfyngu nifer y llyfrau aelodaeth rydym yn talu amdanynt ac yn eu dosbarthu'n ddi-dâl i Gyfeillion. Dylid cyfyngu'r rhain i ddefnyddwyr hanfodol megis clerod a deiliaid swyddi eraill y mae'n ofynnol iddynt gyfathrebu ar draws Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru yn ei gynswth fel rhan o'u gwaith. Os yn bosibl, dylai'r penderfyniad hwn ddod i rym yn syth.
- Dylai golygyddion ein rhestrau cyswllt roi gwybod i gyfarfodydd/cyrddau fod angen talu am lyfrau personol.

Rydym yn gobeithio y bydd ymddiriedolwyr Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru yn cyfarfod ag ymddiriedolwyr Cyfarfodydd Ardal yn weddol fuan er mwyn trafod ffyrdd o ariannu gwaith y Cyfarfod yng Nghymru. Rydym yn gofyn i glerc ein hymddiriedolwyr drefnu'r cyfarfod hwn.

Llofnodwyr sieciau

Rydym yn awdurdodi unrhyw ddau o blith Ros Morley, Lynn Moseley a Jenny Sen i lofnodi sieciau ar ran Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru.

2014.12 Eisteddfod Genedlaethol Llanelli

Bu Theresa Haine yn mynychu cyfarfod cyntaf Cytûn wrth baratoi am Stodin yr Eglwysi yn Eisteddfod Genedlaethol Llanelli 1-9 Awst 2014. Mae'r grŵp yn dal i chwilio am awgrymiadau ar gyfer thema i'r wythnos. Mae Cyfarfod Ardal De Cymru wedi penodi Carey Thomas a John Lewis, ill dau o Gwrdd Lleol Abertawe, fel cynrychiolwyr i gydweithio â Cytûn yn Llanelli eleni.

2014.13 Cofnod o Gyfarfod Ardal Gogledd Cymru

Rydym wedi derbyn y cofnod canlynol gan Gyfarfod Ardal Gogledd Cymru:

Cofnod 2014/13: Mae Frances Voelcker wedi adrodd ar **y Cyfarfod Dioddefiadau** a gynhaliwyd 7 Rhagfyr. Diolchwn i Frances am ei hadroddiad a fydd yn cael ei ffeilio gyda'r cofnodion hyn a'i anfon at bob Cyfarfod. Rydym yn sylweddoli bod angen i ni nodi polisiau addysg Llywodraeth Cymru a'u heffeithiau ar blant Cymru. Rydym yn anfon y cofnod hwn at Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru.

Anfonwyd y cofnod hwn at Grŵp Ffocws Cymru i'w ystyried. Dyma oedd eu hymateb:

"Rydym wedi ystyried y cofnod gan Gyfarfod Ardal Gogledd Cymru ynglŷn â pholisiau addysg yng Nghymru a chytunwn fod angen i Gyfeillion fod ar eu gwyliadwriaeth mewn cysylltiad â pholisiau addysg Llywodraeth Cymru. Yn yr achos hwn, cyffredinol yw'r cofnod o Ogledd Cymru sy'n golygu ei bod yn anodd i ni roi cyngor, heblaw y dylai Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru ymateb lle mae polisiau'n mynd yn groes i'n ffydd a'n hymarfer.

Ym mis Rhagfyr y llynedd, bu'r Cyfarfod Dioddefiadau'n ystyried cofnod o Gyfarfod Ardal Gorllewin Cumbria ynglŷn â gwerthoedd mewn addysg a nododd eu pryderon mewn perthynas â Lloegr.

Fodd bynnag, nid oedd y drafodaeth yn y Cyfarfod Dioddefiadau na'u cofnod, yn gyfyngedig i bolisiau yn Lloegr ac mae'n berthnasol ym mhob man oherwydd yr hyn y dylem ni fel Crynwyr ei wneud yw cefnogi'r gwerthoedd sy'n tanategu ein systemau addysg. Gallwn gytuno, ac rydym yn cytuno, â chofnod S/13/12/10 y Cyfarfod Dioddefiadau."

Ar hyn o bryd, nid yw ein chwaer eglwysi yng Nghymru, drwy Cytûn, yn canolbwyntio ar addysg fel testun pryder, ond pe bai hyn yn newid, yna dylem, fel Cyfeillion, fod yn barod i gymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau o'r fath. Byddwn yn anfon y cofnod hwn at Gyfarfod Ardal Gogledd Cymru.

2014.14 Prosiect Lleisiau Digidol

Rydym wedi derbyn taflen gan Brosiect Lleisiau Digidol; bydd cyrddau lleol yn derbyn hon cyn bo hir. Bydd y DVDs yn cael eu dosbarthu i bob ysgol yng Nghymru ym mis Mawrth eleni. Bydd rhaglen i BBC Radio Wales yn cael ei recordio ym mis Mawrth – mae Donald Saunders a Catherine James wedi cyfrannu i'r DVD.

2014.15 Adroddiad o Gyfarfod Cytûn 10 Chwefror 2014

Cafwyd adroddiadau o gyfarfod Cyngor Eglwysi'r Byd yn Busan, Korea, a fu'n canolbwyntio ar Gyfiawnder a Heddwch, gan Gristnogion yn erbyn Arteithio ac o'r Ystafell Fyw yng Nghaerdydd sy'n gwneud gwaith arloesol yn cynorthwyo pobl sy'n dioddef gwahanol fathau o ddibyniaeth. Soniodd Cathrin Daniel o Gymorth Cristnogol wrth y cyfarfod am ei thaith yn ddiweddar i Israel/Palesteina. Soniodd hefyd am ei hymgysylltu â Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r Bil Datblygu Cynaliadwy arfaethedig ac yn ehangach ar faterion Cyfiawnder Trethi. Yn y flwyddyn sy'n dod, bydd wythnos Cymorth Cristnogol yn canolbwyntio ar Ryfel a Meithrin Heddwch.

Gwahoddir yr holl eglwysi i wneud sylwadau am ddrafft cyntaf y Cynllun Gwaith ar gyfer 2014-15; y tro hwn, mae'r cynllun yn cysylltu gweithgarwch â chostau, gan ddangos sut mae aelodaeth o Cytûn yn cynnig manteision sylweddol o ran costau. Mae Cytûn yn gweithio tuag at gyllideb fantoledig yn 2015 – dylanwad sylweddol ar wariant dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf fu'r *Cynulliad*, menter feiddgar tuag at undod agosach ymysg yr Eglwysi Cyfamodedig yng Nghymru yn ogystal â'r newid yn y trefniadau ariannu rhwng Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (CTBI) a'r Offerynnau Cenedlaethol.

2014.16 Enwebiadau a Phenodiadau

Penodiadau rhwng cyfarfodydd

Jenny Sen i wasanaethu fel clerc cynorthwyol hyd at 31 Rhagfyr 2014

Christine Trevett i wasanaethu fel ein cynrychiolydd ar gomisiwn Cytûn ar gyfer Cymru: Cymdeithas Foesol?

Rohan Lewis a Millie Stein i fynychu Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol Cytûn ar 11 Mehefin 2014 yng Nghanolfan y Priorddy yn y Fenni.

Cais am enwebiadau ar gyfer y tair blynedd nesaf

Cyd-ghlerc o fis Ionawr 2015 hyd at fis Rhagfyr 2017

Neu glerc cynorthwyol o fis Ionawr 2015 hyd at fis Rhagfyr 2015

Yn sgil Cofnod 2013.16: Tri neu bedwar o Gyfeillion i'r Bwrdd Prosiectau (o bosibl wedi'u tynnu o blith aelodau presennol y Pwyllgor Cyhoeddiadau a'r Pwyllgor Posteri)

(a) hyd at fis Rhagfyr 2015

(b) hyd at fis Rhagfyr 2016

Cais am benodiad: Bydd Kate Binney yn rhoi'r gorau i'w swydd fel Cynorthwydd Eirioli gwaith y Pwyllgor Plant a Phobl Ifainc ar ôl iddi gyflwyno ei hadroddiad yng Nghyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru 28 Mehefin. Penodir y swydd hon gan Adran Plant a Phobl Ifainc *Friends House*. Rydym yn gofyn i'r Pwyllgor Penodiadau awgrymu enw i'w gynnig i'r Adran.

Ros Morley (clerc)